# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at WAQ23252 a WAQ23253 a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 20 Mawrth 2003

**At Ieuan Wyn Jones:**

Rhoddwyd yr ateb a ganlyn gan Steve Martin, prif weithredwr ELWa:

O ran WAQ23252, ynghylch taliadau o flaen angen, gofynnir i Gyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru gydymffurfio â thelerau ei femorandwm ariannol â Llywodraeth Cynulliad Cymru, a ddywed:

‘Requests for payment in advance must normally be resisted. In exceptional cases where it is felt that some payment may be necessary the principles set out in annex 21.1 to Government Accounting shall be followed.’

Mae amrediad y gwaith archwilio a gynhelir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a gwasanaeth archwilio mewnol y cyngor, bob blwyddyn yn cynnwys asesiad i ganfod a wnaed taliad o flaen angen gan y cyngor. Yn ogystal, mae gwasanaeth archwilio mewnol y cyngor ar hyn o bryd yn adolygu prosiect y Ffatri Bop a phrosiectau buddsoddi eraill. Mae ei waith yn cynnwys asesiad i ganfod a dalwyd o flaen angen o ran unrhyw un o’r prosiectau hyn. Adroddir darganfyddiadau’r adolygiad hwn i’r cyngor cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol a’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym Mai 2003.

O ran WAQ23253, cewch isod ddadansoddiad o wariant ar ymgynghorwyr ar ddatblygiad y fframwaith cynllunio a’r system gyllido cenedlaethol.

Yr wyf yn anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog ac at Enid Rowlands, cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol—ELWa.

**Datblygiad y Fframwaith Cynllunio a’r System Gyllido Cenedlaethol—Gwariant ar Ymgynghorwyr**

| | **PA Consultants** | **PKF Consultants** | **Atkins** |
|---|---|---|---|
| | Cyfnod 1 datblygu’r system gyllido genedlaethol | Cyfnod 2 datblygu’r fframwaith cynllunio cenedlaethol | Cyfnod 3 Rheoli’r Prosiect |
| Dyddiad y contract: | Tachwedd 2001 i Fawrth 2002 | Mai 2002 i Chwefror 2003 | Ionawr 2003 i Fawrth 2003 (cwblhawyd) |
| Gwerth gwreiddiol y contract | £227,620 | £443,010 | £35,000 |
| Gwerth terfynol y contract | | £597,345* | |
| Gwariant terfynol | £227,620 | £584,152 | Nid yw eto ar gael |
| Treuliau | £14,663 | £16,568 | I’w gadarnhau |
| **Cyfanswm** | **£242,283** | **£600,720** | |
| Cyfartaledd y dydd | £1,455 | £1,317 | £875 |

* estynnwyd y contract ar gyfer 130 diwrnod ymgynghorol ychwanegol.

Mae’r ffigurau oll yn cynnwys TAW a gostyngiad o 10 y cant.

**Gwybodaeth ychwanegol at WAQ23348 a WAQ23349, a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 7 Ebrill 2003**

**At Ieuan Wyn Jones:**

Rhoddwyd yr ateb a ganlyn gan Peter Higson, prif weithredwr dros dro, ELWa.

O ran WAQ23348, ni wnaethpwyd ceisiadau am wariant gan Dysgu Byw Cyf i noddi Gwobrau'r Ffatri Bop 2002.

Fodd bynnag, fel mater ar wahân ac y tu hwnt i'r contract â Dysgu Byw Cyf, noddodd y Cyngor Cenedlaethol—ELWa gategori unigol o'r gwobrau. Hyrwyddwyd hyn drwy broses noddi ffurfiol y rhoddwyd £5,000 drwyddi i noddi'r categori 'newydd-ddyfodiad gorau o Gymru' yng ngwobrau cerddoriaeth y Ffatri Bop 2002.

O ran WAQ23349, mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn adolygu ar hyn bryd brosiect y Ffatri Bop a chyflwynir adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol maes o law.